



Tarddiad annisgwyl efyddau Benin

Sleid gan Neil Goalby. Ar gael yn [rsc.li/4udHzd7](https://www.rsc.li/4udHzd7)

Mae efyddau Benin yn waith celf gan bobl Edo Gorllewin Affrica o'r 16eg i'r 19eg ganrif. Mae astudiaeth newydd wedi dangos eu bod wedi cael eu gwneud o freichledau wedi'u toddi. Mae'r breichledau yn gylchoedd aloi a oedd yn cael eu defnyddio fel arian yng Ngorllewin Affrica gan gaethfasnachwyr Ewropeaidd a masnachwyr eraill. Roedd yr aloion wedi'u gwneud o bres yn bennaf, yn cynnwys copr a sinc. Roedd rhai yn efydd, yn cynnwys copr a thun. Ymchwiliodd y gwyddonwyr i freichledau wedi'u hadfer o longddrylliadau yn yr Iwerydd, gan ganfod lefelau hybrin tebyg o blwm, arsenig, nicel a bismwth. Canfyddon nhw hefyd fod cyfansoddiad y copr yn cyfateb i fwynau copr wedi'u mwyngloddio yn yr Almaen fodern.



© Werner Forman/Universal Images Group/Getty Images

Mae efyddau Benin yn gofnod o hanes Teyrnas Benin

Cwestiynau

1. Beth yw aloi?
2. Pa fetelau mae efydd a phres yn eu cynnwys fel arfer?
3. Awgrymwch pam mae archwilio symiau'r metelau hybrin wedi helpu gwyddonwyr i ddod i gasgliadau am efyddau Benin.